**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

17 Hydref 2024

Annwyl Jeremy

Rheoliadau i weithredu Rhan 4 ac Atodlen 3 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 sy'n ymdrin â chreu cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer ymarferwyr, mangreoedd a cherbydau sy'n gysylltiedig â rhoi triniaethau arbennig

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi craffu ar gyfres o reoliadau yn ddiweddar[1] a osodwyd gerbron y Senedd gan Lywodraeth Cymru i weithredu Rhan 4 ac Atodlen 3 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 sy'n ymdrin â chreu cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer ymarferwyr, mangreoedd a cherbydau sy'n gysylltiedig â rhoi triniaethau arbennig.

Fel rhan o'n gwaith craffu, byddwch hefyd yn ymwybodol ein bod wedi codi pryderon ynghylch yr amserlen ar gyfer rhoi'r cynllun trwyddedu sy'n gysylltiedig â thriniaethau arbennig ar waith. Cafodd Deddf 2017 Gydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf 2017. Disgwylir i'r gyfres o reoliadau ddod i rym ar 29 Tachwedd 2024. Mae hyn yn golygu y bydd cyfnod o fwy na saith mlynedd wedi mynd heibio erbyn i'r rheolau newydd ar driniaethau arbennig gael eu gweithredu. Pan wnaethom ofyn am y rheswm dros hyn, mae ymatebion a gawsom gan Lywodraeth Cymru i'n hadroddiadau yn nodi y rhoddwyd blaenoriaeth i ddod â Rhan 5 o Ddeddf 2017, sy'n ymwneud â rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff, i rym a'i chymhwyso'n fwy eang. Mae'r ymateb yn mynd ymlaen i nodi:

> *"Yn ystod hydref 2019, dechreuodd y gwaith paratoi i lunio cynigion ar gyfer y cynllun trwyddedu mandadol a nodir yn Rhan 4 o Ddeddf 2017 ac Atodlen 3 iddi.*

---

[1] Y rhain yw: SL(6)524 - Rheoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024 (a dynnwyd yn ôl yn dilyn gwaith craffu gan y Pwyllgor); SL(6)527 - Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024; SL(6)526 - Rheoliadau Unigolion sydd wedi eu Hesemptio o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024; SL(6)525 - Rheoliadau Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Tyllu'r Corff (Triniaethau Arbennig) (Cymru) 2024; SL(6)528 - Rheoliadau Pwyllgorau Trwyddedu Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024

*Oherwydd yr ymateb i bandemig Covid, fodd bynnag, cafodd y gwaith ar y cynigion ei oedi, gan ailddechrau yn ystod haf 2022. Ers hynny, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar egwyddorion y cynllun trwyddedu arfaethedig gan arwain at nifer sylweddol o ymatebion dadlennol gan ystod o unigolion, busnesau a chyrff yn cynrychioli'r holl driniaethau arbennig. Bu'r rhain yn sail i'r gwaith o ddrafftio pum set gymhleth a rhyng-gysylltiedig o Reoliadau, a chynhaliwyd ymgynghoriad ar y rhain yn gynharach eleni.*

*Wrth fynd ati rydym wedi sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n gadarn ac yn effeithiol â rhanddeiliaid, gan gynnwys swyddogion awdurdodau lleol, ymarferwyr, busnesau a rhanddeiliaid o'r diwydiant, ynglŷn â gofynion y cynllun. Mae hyn wedi cymryd amser, ond mae wedi sicrhau y deellir y fframwaith rheoleiddiol ac y gellir ei roi ar waith yn effeithiol, gan amddiffyn a diogelu yn ôl bwriad Deddf 2017."*[2]

Nid ydym yn ystyried hwn yn ymateb argyhoeddiadol, a chyda'r wybodaeth a ddarparwyd inni, rydym wedi dod i'r casgliad nad yw'r oedi cyn gweithredu darn allweddol o ddeddfwriaeth iechyd y cyhoedd yn dderbyniol. Yn ein cyfarfod ar 14 Hydref 2024 cytunwyd i ysgrifennu atoch i fynegi'r pryderon hyn.

Mae hefyd yn werth nodi bod ein hadroddiad ar y Rheoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024 drafft yn cynnwys 16 o bwyntiau technegol, gyda naw ohonynt yn nodi naill ai drafftio diffygiol posibl neu anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Nodwn fod y Rheoliadau drafft hyn wedi'u tynnu'n ôl ers hynny.

Rydym o'r farn bod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn bwriadu i'r Senedd drafod y gyfres o reoliadau fis nesaf. Mae'n debygol y bydd yr oedi hir cyn gweithredu Rhan 4 o Ddeddf 2017 ac Atodlen 3 iddi yn cael ei godi yn ystod y ddadl a gobeithiwn y byddwch yn rhoi mwy o eglurder ac esboniad o'r mater hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir,

Mike Hedges
Cadeirydd

---

[2] Gweler, er enghraifft, ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad ar Reoliadau Pwyllgorau Trwyddedu Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024.